# PWYLLGOR PERSONÉL

**(Multi Location Microsoft Teams/Council Chamber)**

| **Aelodau sy'n bresennol:** | **Dydd Llun, 11 Rhagfyr 2023** |
|---|---|
| **Cadeirydd :** | **Cynghorydd: S.A.Knoyle** |
| **Is-gadwirydd:** | **Cynghorydd: A.J.Richards** |
| **Cynghorwyr**: | T.Bowen, C.Clement-Williams, S.Grimshaw, J.Hale, J.Henton, J.Jones, S.Jones, D.Keogh a/ac S.Pursey |
| **Aelodau di-bleidlais:** | Cynghorwyr S Hunt, J Hurley, N Jenkins, W F Griffiths |
| **Swyddogion yn bresennol:** | S Rees, A.Hutchings, L.Margetson, A James ac N Jones |

---

1. **CYHOEDDIAD Y CADEIRYDD**

   Croesawodd y Cynghorydd S Knoyle bawb i'r cyfarfod.

2. **DATGANIADAU O FUDDIANNAU**

   Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

3. **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

   Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 25 Medi 2023 fel cofnod gwir a chywir.

4. **BLAENRAGLEN WAITH 2023**

   Nodwyd y Flaenraglen Waith ar gyfer 2023/2024.

5. **CÔD YMDDYGIAD DIWYGIEDIG I WEITHWYR**

   Rhoddodd y Rheolwr AD grynodeb ar gyfer yr adroddiad a ddosbarthwyd.

Cododd yr aelodau awgrym ar gynllun cynnwys penodol yn yr adroddiad i'w gwneud yn haws i'w ddarllen ac yn fwy eglur. Nodwyd y sylwadau.

Nodwyd gwall ar dudalen 41, llinell 4 yr adroddiad.

Holodd yr aelodau ynghylch cyfathrebu rhwng swyddogion a chynghorwyr, a fyddai'n cael ei nodi.

**Penderfyniad:**

Bod yr Aelodau'n cymeradwyo'r Côd Ymddygiad Gweithwyr diwygiedig.

6. **CYNLLUNIAU HONORARIA AC ACTIO I FYNY DIWYGIEDIG**

Rhoddodd y Rheolwr AD grynodeb ar gyfer yr adroddiad a ddosbarthwyd.

**Penderfyniad:**

Bod yr Aelodau'n cymeradwyo'r Cynlluniau Honoraria a Chamu i Fyny diwygiedig.

7. **ADRODDIAD BLYNYDDOL CYDRADDOLDEB MEWN CYFLOGAETH**

Cafwyd cwestiynau gan yr aelodau ynghylch y ffaith bod y gweithlu’n cynnwys menywod yn bennaf, ac o ganlyniad pa gamau oedd ar waith i annog neu gefnogi gweithwyr benywaidd i rolau â chyflogau uwch.

Ymatebodd y Pennaeth Pobl a Datblygiad Sefydliadol drwy hysbysu'r aelodau fod Tîm Rheoli Talent yn y broses o gael ei sefydlu. Byddai'r tîm wedyn yn edrych ar feysydd fel hyfforddiant o ran gyrfa a datblygu gyrfa. Y cynllun ar gyfer y dyfodol fyddai adolygu'r dalent o fewn y Cyngor a dod o hyd i ffyrdd o gadw gweithwyr talentog.

Yna rhoddwyd diweddariad i'r aelodau ar y cynllun mentora newydd, a ddatblygwyd ar y cyd â Chwarae Teg. Clywodd yr aelodau fod y cynllun wedi'i gynllunio'n benodol i gynorthwyo gweithwyr benywaidd ar gyflogau isel y gweithlu, ond mae hefyd un sy'n cynnwys yr holl weithwyr.

Trafodwyd canran yr anableddau a ddatganwyd, gyda'r aelodau'n mynegi pryderon ynghylch y nifer isel. Ymatebodd swyddogion drwy nodi mai cyfrifoldeb y gweithiwr yn bennaf oedd datgan a oedd yn dymuno datgelu unrhyw wybodaeth ynghylch anableddau personol. Esboniodd y swyddogion fod cronfa ddata hunanwasanaeth newydd wedi'i chyflwyno, lle gall gweithwyr ddatgelu gwybodaeth bersonol. Rhoddwyd gwybod i'r aelodau am y cynllun pasbort anabledd. Mae fforwm hefyd i'w sefydlu'n benodol ar gyfer gweithwyr ag anableddau.

Cododd yr aelodau gwestiynau ynghylch cyrsiau hyfforddi ac a oedd y set ddata 'ceisiadau newydd' yn cynnwys cyrsiau gorfodol. Dywedodd swyddogion nad oedd hyfforddiant gorfodol wedi'i gynnwys o dan 'ceisiadau newydd' ac mae'r cyrsiau hyn yn orfodol i bob aelod o staff. Aeth yr aelodau ymlaen i godi pryderon ynghylch y niferoedd a nodwyd yn yr adroddiad, gan eu bod yn gamarweiniol. Byddai swyddogion yn nodi'r wybodaeth hon.

Cyflwynwyd argymhelliad o ran gweithgorau ar gyfer nodweddion penodol, gan gynnwys gwahanol lefelau o swyddogion ar draws y Cyngor. Aeth swyddogion ymlaen i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r rhwydwaith gweithwyr o leiafrifoedd ethnig a ffurfiwyd a'r manteision a'r canlyniadau a welwyd gan y grŵp a ffurfiwyd. Hoffai'r un broses gael ei hadlewyrchu yn y dyfodol gyda grŵp anabledd. Yn y lle cyntaf byddai'r awgrym gan aelodau yn cael ei gyfeirio at y grŵp cydraddoldeb a chydlyniant ar gyfer materion yn ymwneud â'r nodweddion gwarchodedig fel y trafodwyd. Aeth yr aelodau ymlaen ymhellach i dynnu sylw at fanteision gweithgorau unigol a gwrthwynebwyd un grŵp trosgynnol, a allai weld diffyg diddordeb oherwydd meysydd diddordeb penodol. Rhoddwyd gwybod i'r aelodau fod y grŵp yn cael ei adolygu ar hyn o bryd.

**Penderfyniad:**

Bod yr aelodau'n cymeradwyo'r wybodaeth am gyflogaeth a chydraddoldeb amgaeedig.

## 8. DIWEDDARIAD CYNLLUN GWEITHREDU CYDRADDOLDEB RHYWIOL 2023

Aeth y Pennaeth Pobl a Datblygu Sefydliadol ymlaen i roi trosolwg i'r pwyllgor o'r adroddiad a ddosbarthwyd.

Rhoddwyd gwybod i'r aelodau fod y Cyngor wedi bod yn gweithio ochr yn ochr â Chwarae Teg a'r cynllun Cyflogwyr Chwarae Teg ers

2019. Ers eleni, roedd Chwarae Teg wedi cau, felly mae'r eitem ar yr agenda wedi'i hailenwi'n Gynllun Gweithredu Cydraddoldeb Rhywiol. Dywedodd swyddogion fod y cynllun yn cael ei ddefnyddio i ddechrau i gefnogi'r gostyngiad ym mwlch cyflog rhwng y rhywiau'r Cyngor. Bu'r Cyngor, ynghyd â Chwarae Teg, yn gweithio gyda'i gilydd i roi Arolwg Cydraddoldeb Rhywiol ar waith yn ogystal ag archwilio polisïau a phrosesau cyflogaeth, a helpodd i greu'r cynllun gweithredu.

Yn ystod y deuddeg mis diwethaf mae Chwarae Teg wedi cynorthwyo'r Cyngor i ddatblygu Cynllun Mentora Meant2BeNPT. Dywedwyd wrth yr aelodau fod y Cyngor wedi derbyn Gwobr Cyflogwr Chwarae Teg Womenspire 2023 yn ddiweddar o ganlyniad i'r gwaith hwn.

Hysbyswyd y Pwyllgor, er nad yw Chwarae Teg yn bodoli mwyach, y byddai'r gwaith a wnaed rhyngddynt a'r Cyngor ers 2019 yn parhau. Roedd yr Aelodau'n awyddus i fynegi eu diolch i'r Swyddogion.

**Penderfyniad:**
Bod yr adroddiad yn cael ei nodi er gwybodaeth

## 9. <u>AROLWG BLYNYDDOL O YMGYSYLLTIAD GWEITHWYR</u>

Rhoddwyd gwybod i'r aelodau y byddai'r Arolwg Ymgysylltu â Gweithwyr Blynyddol yn cael ei lansio yng ngwanwyn 2024. Eglurodd swyddogion y byddai'r arolwg yn sail ar gyfer datblygu Strategaeth Ymgysylltu. Aeth swyddogion ymlaen i dynnu sylw at bwysigrwydd yr arolwg a'r manteision o gynnal yr arolwg i gynorthwyo'r strategaeth.

**Penderfyniad:**
Bod yr adroddiad yn cael ei nodi er gwybodaeth.

## 10. <u>CYNLLUN GWEITHREDU AMSER I NEWID CYMRU - ADRODDIAD DIWEDDARU</u>

Rhoddodd swyddogion grynodeb o'r cynllun i'r aelodau, gan nodi bod y Cyngor wedi ymrwymo i Gynllun Gweithredu Addewid Cyflogwyr Amser i Newid Cymru yn 2019. Clywodd yr aelodau fod adborth wedi dod i law o Amser i Newid Cymru, ac maen nhw wedi nodi'r awdurdod fel cyflogwr gweithredol.

Aeth y Pennaeth Pobl a Datblygu Sefydliadol ymlaen i hysbysu'r Pwyllgor fod nifer o weithwyr ar draws y Cyngor yn mynd ati i ymgysylltu fel Hyrwyddwyr Gweithwyr, gan drafod meysydd fel iechyd meddwl a'r menopos. Diben y gwaith yw lleihau'r stigma o amgylch iechyd meddwl a chyfeirio gweithwyr at ffynonellau cymorth ac arweiniad.

**Penderfyniad:**
Bod yr adroddiad yn cael ei nodi er gwybodaeth.

11. **ADRODDIAD GWYBODAETH GWEITHLU CHWARTER 2**

Rhoddwyd gwybod i'r aelodau y gellid dod o hyd i fanylion llawn yr adroddiad yn Atodiad 1 yr adroddiad a ddosbarthwyd.

**Penderfyniad:**
Bod yr adroddiad yn cael ei nodi er gwybodaeth.
.

12. **EITEMAU BRYS**

Nid oedd unrhyw eitemau brys.

**CADEIRYDD**